



CABINET

COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER, 26 IONAWR 2022 AM 10:30AM

YN BRESENNOL:

Y Cyngorydd P. Marsden (Arweinydd) – Cadeirydd

Cynghorwyr:

S. Cook (Gofal Cymdeithasol a Thai), N. George (Gwastraff, Diogelu'r Cyhoedd a Strydoedd), C. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), J. Pritchard (Isadeiledd ac Eiddo), A. Whitcombe (Cynaliadwyedd, Cynllunio a Fflyd), ac R. Whiting (Dysgu a Hamdden).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol) ac M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Yr Economi a'r Amgylchedd), ac S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151).

Hefyd yn bresennol:

R. Tranter (Pennaeth Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Monitro), A. West (Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), J. Morgan (Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedu a Chofrestryddion), L. Thomas (Ysgolion yr 21ain Ganrif - Prif Swyddog), N. Rutter (Swyddog Cyfathrebu Digidol), M. Harris (Swyddog Cymorth Gwasanaethau'r Pwyllgorau/Chauffer), M. Afzal (Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgor) ac E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgor).

a:

Y Cyngorydd C. Mann

TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio, ac na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, ond y byddai recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod ar wefan y Cyngor – Cliciwch Yma i'w Wyllo. Dywedodd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan E. Stenner (Perfformiad, Yr Economi a Menter).

2. DATGAN BUDDIANNAU.

Datganodd y Cynghorydd J. Pritchard fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem Agenda Rhif 6 - Rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif – Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon gan ei fod yn Llywodraethwr Penodedig Awdurdod Lleol yn Ysgol Gynradd Plasyfelin, ond gan fod hwn yn fuddiant personol yn unig, nid oedd yn ofynnol iddo adael y cyfarfod a gallai gymryd rhan lawn yn y ddadl a'r bleidlais.

Datganodd y Cynghorydd S. Cook fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem Agenda Rhif 6 - Rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif – Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon gan ei fod yn Llywodraethwr Penodedig Awdurdod Lleol yn Ysgol Gynradd Plasyfelin ac roedd yn ddiddordeb personol a oedd yn rhagfarnu gan fod ei ferch yn dechrau'r dosbarth meithrin ym Mhlasyfelin ym mis Ebrill ac felly byddai'n gadael y cyfarfod pan ystyrir y mater ac na fyddai'n cymryd unrhyw ran yn y ddadl na'r bleidlais.

3. CABINET - 12 IONAWR 2022.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2022 fel cofnod cywir.

4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET.

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn nodi'r adroddiadau sydd wedi'u trefnu hyd at 23 Mawrth 2022. Atgoffwyd yr Aelodau bod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen weithio, ac felly mae'n bosib y bydd yn newid.

Ar ôl ystyried, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi'r Flaenraglen Waith a thrwy ddangos dwylo cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD y dylid nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

5. RHAGLEN BAND B YSGOLION A CHOLEGAU'R 21AIN GANRIF – ADRODDIAD YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED: CANOLFAN AR GYFER DYSGWYR SY'N AGORED I NIWED (UNED CYFEIRIO DISGYBLION).

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn diweddarau'r Aelodau ar gynnig Band B Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif mewn perthynas â sefydlu Canolfan Newydd ar gyfer Dysgwyr Sy'n Agored i Niwed (Uned Cyfeirio Disgyblion) ar hen safle Ysgol Gyfun Pontllan-fraith. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Ymgysylltu â'r Gymuned a chymeradwyo'r argymhellion i fynd ymlaen i'r cam Cais Cynllunio a chyflwyniad Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru. Nododd y Cabinet fod Unedau Cyfeirio Disgyblion wedi'u heithrio o'r prosesau ymgynghori a amlinellir yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ond cynhaliwyd proses ymgysylltu â'r ysgol yn ogystal â'r gymuned ehangach drwy gydol y broses yn unol â fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Awdurdod i alluogi proses gwneud penderfyniadau dryloyw ac agored.

Rhoddwyd trosolwg i'r Cabinet o'r gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd rhwng 20 Hydref 2021 ac 1 Rhagfyr 2021. Nodwyd bod yr ymgynghoriad wedi derbyn 20 o ymatebion gan gynnwys sylwadau gan y Pwyllgor Craffu Addysg a oedd wedi cymeradwyo'r cynnig yn unfrydol; Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol yn bennaf gydag 16 yn cefnogi'r cynnig, nid oedd 3 ymatebydd yn teimlo'n gryf y naill ffordd na'r llall ac 1 ymatebydd nad oedd yn cefnogi'r cynnig.

Cafodd y Cabinet gyflwyniad manwl, a rhoddodd y Swyddog grynodedig o gynlluniau'r Awdurdod ar gyfer y safle. Y gobaith oedd y byddai'r ganolfan yn darparu lle ar gyfer rhwng 80-120 o ddisgyblion, yn cynnig cymorth o'r radd flaenaf i ddisgyblion sy'n agored i niwed yn ogystal â

lleddfu'r pwysau ar ysgolion prif ffrwd. Fodd bynnag, pwysleisiodd y Swyddog nad y ganolfan oedd diwedd y daith i ddisgyblion, pe bai plant yn elwa o ddarpariaethau'r canolfannau, byddai'n bosibl iddynt ddychwelyd i'r ysgol brif ffrwd drwy ddeialog barhaus a fyddai'n sicrhau bod anghenion y disgyblion yn cael eu diwallu. Cadarnhaodd y Swyddog fod yr Awdurdod yn gweithio gyda chydweithwyr mewn gwasanaethau eiddo i ddod â'r cynigion yn realiti.

Croesawodd y Cabinet yn arbennig y cyfle i'r gymuned ehangach rannu'r cyfleusterau chwaraeon dan do ac awyr agored ar ôl oriau ysgol, a fyddai'n golygu bod hen safle Ysgol Gyfun Pontllan-fraith yn cael ei ddefnyddio unwaith eto. Croesawodd y Cabinet y ganolfan hefyd gan y byddai'n darparu lefel o sefydlogrwydd i ddysgwyr sy'n agored i niwed ac y byddai'n hwyluso'r amgylchedd addysgol priodol ar gyfer y disgyblion hynny.

Roedd yr Arweinydd yn hynod falch o groesawu'r adroddiad a mynegodd y Cabinet eu diolch i'r holl Swyddogion a fu'n rhan o'r broses adrodd ac ymgysylltu. Fel eiriolwr hirdymor dros y cynigion a chyn-Aelod Cabinet dros Addysg, roedd yn galonogol gweld y cynlluniau yr oedd yr Awdurdod wedi'u trafod yn helaeth dros y blynyddoedd yn dod i fodolaeth.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo. Trwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog: –

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad
- b) Ystyried yr Adroddiad Ymgysylltu â'r Gymuned.
- c) Dylid cymeradwyo'r argymhelliad i fynd ymlaen i'r Cam Cais Cynllunio.
- d) Dylid cymeradwyo'r argymhelliad i fynd ymlaen i gyflwyno'r Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru.
- e)

6. RHAGLEN BAND B YSGOLION A CHOLEGAU'R 21AIN GANRIF – ADRODDIAD YMGYSYLLTU Â'R GYMUNED: YSGOL GYNRADD PLASYFELIN.

Ar ôl datgan buddiant personol a oedd yn rhagfarnu, gadawodd y Cynghorydd S. Cook y cyfarfod ac ni chymerodd ran yn y ddadl na'r bleidlais.

Datganodd y Cynghorydd J. Pritchard fuddiant personol yn unig felly arhosodd yn y cyfarfod a chymerodd ran lawn yn y ddadl a'r bleidlais.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn diweddarau'r Aelodau ar gynnig Band B Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Plasyfelin newydd ar y safle presennol. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Ymgysylltu â'r Gymuned a chymeradwyo'r argymhellion i fynd ymlaen i'r cam Cais Cynllunio a chyflwyniad Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru. Dywedwyd wrth y Cabinet fod y cynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Plasyfelin wedi'i eithrio o'r prosesau ymgynghori a amlinellir yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, ond cynhaliwyd proses ymgysylltu â'r ysgol yn ogystal â'r gymuned ehangach drwy gydol y broses yn unol â fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Awdurdod i alluogi proses gwneud penderfyniadau dryloyw ac agored.

Rhodddwyd trosolwg i'r Cabinet o'r gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd rhwng 20 Hydref 2021 ac 1 Rhagfyr 2021. Nodwyd bod yr ymgynghoriad wedi derbyn 15 o ymatebion gan gynnwys sylwadau gan y Pwyllgor Craffu Addysg. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol yn bennaf gan mai dim ond un preswlydd nad oedd yn gefnogol i'r cynnig.

Derbyniodd y Cabinet gyflwyniad a oedd yn manylu ar y dadansoddiad o'r ymatebion Roedd y Swyddog yn falch o roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y disgyblion o'r ysgol oedd wedi cymryd rhan yn y broses ymgynghori drwy sesiynau 'llais y disgybl', a sicraodd yr Aelodau y byddent yn parhau i ymgorffori lleisiau disgyblion drwy gydol y broses gyfan. Esboniodd y Swyddog agwedd carbon sero net yr ysgol. Dywedwyd bod yr ysgol carbon sero net arfaethedig ar gyfer Plasyfelin yn cyd-fynd ag agenda datgarboneiddio'r Awdurdod, ac y byddai'r Awdurdod yn gweithio gydag eco-gyngor yr ysgol ym Mhlasyfelin drwy gydol y prosiect. Roedd y Cabinet yn falch o nodi bod yr Awdurdod yn adeiladu i'r safon honno ac yn gweld hyn yn gam cadarnhaol iawn ymlaen. Croesawodd yr Aelod Cabinet dros Isadeiledd ac Eiddo y cynigion. Dywedwyd bod y datblygiadau arfaethedig yn gadarnhaol gan eu bod yn dangos bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Cynigiodd yr Aelod Cabinet ei gefnogaeth lawn i'r ysgol arloesol ac yn ei sylwadau terfynol dywedodd fod amseroedd cyffrous o'n blaenau ar gyfer Plasyfelin.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo. Trwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog: –

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad
- b) Ystyried yr Adroddiad Ymgysylltu â'r Gymuned.
- c) Dylid cymeradwyo'r argymhelliad i fynd ymlaen i'r Cam Cais Cynllunio.
- d) Dylid cymeradwyo'r argymhelliad i fynd ymlaen i gyflwyno'r Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru.

7. RHAGLEN BAND B YSGOLION A CHOLEGAU'R 21AIN GANRIF - ADRODDIAD YMGYNGHORI: YSGOL IAU LLANCAEACH/YSGOL FABANOD LLANFABON.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnig Band B Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif mewn perthynas ag uno Ysgol Iau Llancaeath ac Ysgol Fabanod Llanfabon i greu Ysgol Gynradd newydd ar safle presennol Ysgol Fabanod Llanfabon. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y wybodaeth a gynhwysir yn yr Adroddiad Ymgynghori a chymeradwyo'r argymhellion i fynd ymlaen i'r Hysbysiad Statudol. Nododd y Cabinet y byddai'r gymuned ehangach, fel cynigion blaenorol, yn gallu cael mynediad i'r cyfleusterau newydd. Manteisiodd y Cabinet hefyd ar y cyfle i gofnodi eu diolch i'r Swyddogion am yr holl waith caled a'r ymroddiad wrth gynhyrchu'r adroddiadau a'r ymgynghoriadau a gyflwynwyd heddiw, yn enwedig o ystyried y pandemig.

Rhodddwyd trosolwg i'r Cabinet o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng 20 Hydref 2021 ac 1 Rhagfyr 2021. Dywedwyd wrth y Cabinet fod yr ymgynghoriad wedi derbyn cyfanswm o 11 ymateb gan gynnwys sylwadau gan y Pwyllgor Craffu Addysg. Esboniodd yr Aelod Cabinet sut yr oedd disgyblion o'r ddwy ysgol wedi cymryd rhan yn y broses ymgynghori drwy sesiynau 'llais y disgybl', a sicraodd yr Aelodau y byddent yn parhau i ymgorffori lleisiau disgyblion drwy gydol y broses gyfan.

Derbyniodd y Cabinet gyflwyniad manwl ar y cynnig a thynnodd y Swyddog sylw at sut y byddai safle'r ysgol gynradd yn gwella gofod dysgu a chyfleusterau a fyddai'n darparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol. Rhannwyd argraffiadau'r artist i roi syniad o'r cynnig a chadarnhawyd y broses ymgynghori. Amlinellodd y Swyddog ddadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd a chadarnhaodd fod 91% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig. Nododd y Cabinet y themâu ymateb a sut y byddai'r ddarpariaeth yn cael ei gwella. Amlinellwyd y broses adeiladu a'r effeithiau posibl, a darparwyd sicrwydd y byddai unrhyw faterion yn cael sylw wrth iddynt godi ar y cyd â'r Gwasanaethau Ymgynghori Adeiladu.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ailenwi eu rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif yn Gymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a oedd, yn ôl barn y Swyddogion, yn crisialu dyheadau ac ethos y Cyngor ar gyfer integreiddio ysgolion a chymunedau.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo. Trwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog: –

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad
- b) Ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad ymgynghori.
- c) Dylid cymeradwyo'r argymhelliad i fynd ymlaen i Hysbysiad Statudol mewn perthynas â'r cynnig i greu darpariaeth Ysgol Gynradd newydd drwy uno Ysgol Iau Llancaeath ac Ysgol Fabanod Llanfabon ar safle presennol Ysgol Fabanod Llanfabon.

8. RHAGLEN BAND B YSGOLION A CHOLEGAU'R 21AIN GANRIF - DIWEDDARIAD YSGOL GYMRAEG CWM GWYDDON.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnig Band B Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif mewn perthynas ag Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon. Gofynnwyd i Aelodau'r Cabinet gymeradwyo £416,063 ychwanegol o Gronfa Llundio Lleuedd yr Awdurdod mewn perthynas â chyfraniad ariannol cynyddol yr Awdurdod i gynnig Cam 1 ar gyfer Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon fel rhan o raglen Band B Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif. Dywedwyd bod Achos Busnes Llawn wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru a daeth cymeradwyaeth ar gyfer yr Achos Busnes hwn drwedd ar 21 Rhagfyr 2021.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi bod y cynnig hwn wedi symud ymlaen i'r broses Cais Cynllunio a Thendro. Dywedwyd wrth y Cabinet fod y cynnydd cyffredinol yng nghostau'r prosiect yn deillio o effaith Covid 19, Brexit a chynnydd sylweddol mewn chwyddiant yn y sector adeiladu. Mewn perthynas â'r gymeradwyaeth gynllunio a oedd ag amod yn ei herbyn, cadarnhaodd y Swyddog fod y tîm yn gweithio'n agos gyda Dŵr Cymru ar y mater hwn ac y gellid cyflawni'r amod maes o law.

Cadarnhaodd swyddogion fod yr achos busnes llawn bellach wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo. Trwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog: –

- a) Ystyried y wybodaeth yn yr adroddiad.
- b) Bod £416,063 ychwanegol yn cael ei neilltuo o Gronfa Llundio Lleuedd yr Awdurdod mewn perthynas â chyfraniad ariannol yr Awdurdod i gynnig Cam 1 Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon fel rhan o raglen Band B Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif a chymeradwyo'r arian ychwanegol.

Cofnododd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol eu diolch i'r Swyddogion am eu holl ymdrechion drwy gydol y broses a

chrosawyd y prosiectau hyn fel ffordd gyffrous ymlaen a fyddai'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i drigolion Caerffili.

9. RECRIWTIO GWEITHWYR IECHYD MEDDWL CYMERADWY YN NHÎM DYLETSSWYDD ARGYFWNG DE-DDWYRAIN CYMRU.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr heriau recriwtio a chadw sy'n ymwneud â nifer y Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy a gyflogir gan Dîm Dyletswydd Argyfwng De-ddwyrain Cymru a'r gydberthynas uniongyrchol â chyflogau a'r effaith ar gynaliadwyedd gwasanaethau y tu allan i oriau. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i gymhwyso atodiad y farchnad ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy sy'n ymgymryd â dyletswyddau o fewn y gwasanaeth i sicrhau bod dyletswyddau cyfreithiol, statudol y gwasanaeth yn cael eu bodloni'n briodol. Nododd y Cabinet fod nifer o awdurdodau'n rhannu'r heriau sy'n wynebu Caerffili yn y maes recriwtio penodol hwn. Croesawodd Aelodau'r Cabinet yr adroddiad gan y byddai'r atodiad ychwanegol i'r farchnad yn lleddfu rhai o'r anawsterau yr oedd Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy yn eu profi ar hyn o bryd.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo. Trwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog: –

Dylid cymhwyso atodiad y farchnad i Weithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy Tîm Dyletswydd Argyfwng De-ddwyrain Cymru a gyflogir i ymgymryd â swyddogaeth Gweithiwr Iechyd Meddwl Cymeradwy fel yr amlinellir yn 8.2 o adroddiad y Swyddog ac fel y'i cefnogir gan Fwrdd Cyfarwyddwyr Tîm Dyletswydd Argyfwng De-ddwyrain Cymru. Mae hyn ar gyfer yr oriau pan fydd y gwasanaethau prif ffrwd yn ystod y dydd ar gau, rhwng 5pm a 8.30am o ddydd Llun i ddydd Iau, yna 4.30pm ar ddydd Gwener, am 24 awr yn ystod penwythnosau a gwyliau banc, y byddai'r atodiad o 20% yn parhau i fod yn berthnasol iddynt. Cymeradwyo y dylid monitro effaith hyn a'i werthuso ar ôl cyfnod o ddeuddeg mis i bennu'r effaith ar recriwtio a chadw Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy Tîm Dyletswydd Argyfwng De-ddwyrain Cymru.

10. RHEOLIADAU LLES ANIFEILIAID (TRWYDDEDU GWEITHGAREDDAU SY'N YMWNEUD AG ANIFEILIAID) (CYMRU) 2021.

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Cabinet am ddeddfwriaeth newydd yn ymwneud â gwerthu anifeiliaid anwes. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth y Swyddog Monitro i wneud y newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r broses o weithredu Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021, a dirymu Deddf Anifeiliaid Anwes 1951. Nododd y Cabinet fod y ddeddfwriaeth newydd yn cynnig lefel ychwanegol o ddiogelwch a chyfeiriodd at hysbysiad blaenorol o gynnis a gefnogwyd gan y Cyngor o ran Cyfraith Lucy, gan y byddai'n ofynnol i'r rhai sy'n ymwneud â gweithgareddau trwyddedadwy gwerthu anifeiliaid anwes eu bridio a'u gwerthu yn unol â ddeddfwriaeth ac amodau trwydded. Cadarnhaodd y Swyddog y byddai'r ddeddfwriaeth yn cyflwyno rheoliadau llymach gan y byddai'n ofynnol i fridwyr werthu'r anifail o'r safle lle cafodd yr anifail ei fagu ac ym mhresenoldeb y perchennog gwirioneddol. Croesawodd y Cabinet y ddeddfwriaeth newydd a oedd yn bwriadu gwella lles anifeiliaid a dod â gwaharddiad i bob pwrpas ar werthu anifeiliaid yn y Fwrdeistref Sirol drwy drydydd parti.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo. Trwy bleidlais electronig, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog, y dylid nodi cynnwys yr adroddiad.

- a) Cytuno ar weithredu Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021.
- b) Rhoi awdurdod dirprwyedig i swyddogion trwyddedu i benderfynu ar Drwyddedau o dan y Rheoliadau yn unol â pharagraff 5.5 o'r adroddiad.
- c) Bod unrhyw apeliadau yn erbyn Sgôr Seren y safle yn cael eu penderfynu gan un ai Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden, Safonau Masnach, Rheolwr Trwyddedu a Chofrestryddion neu'r Rheolwr Trwyddedu yn unol â pharagraffau 5.10 a 5.11.
- d) Bod y diwygiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad yn cael eu gwneud gan Swyddog Monitro'r Cyngor i adlewyrchu'r broses o weithredu Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 a dirymu Deddf Anifeiliaid Anwes 1951.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.49am.

Wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 9 Chwefror 2022.

CADEIRYDD